

7 Amaethyddiaeth

Ychydig iawn a wyddis am amaethyddiaeth yn y plwyf yn y gorffennol, ond nid anfuddiol a fyddai disgrifio bywyd ar y tir yn y rhan hon o'r sir ddyddiau a fu.

Y lleoedd cyntaf i gael eu llafurio neu eu amaethu oedd y rhai lle y ceid dĕr wrth law; golygai hyn ryw gymaint o weundir lle gallai anifeiliaid bori yng ngolwg eu perchenogion. Gan fod yd yn angenrheidiol rhaid oedd aredig y tir, a dewisid tir ar rediad i sicrhau nad oedd dĕr yn sefyll ynddo. Heddiw terfynir meysydd a ffermydd gan wrychoedd, ffosydd, waliau neu *fences*, ond cyn 1760 yr oedd mwyafrif y meysydd wedi eu gwahanu oddi wrth ei gilydd gan *strip* o dir lled llwybr troed ac heb ei aredig. Gelwid y cyfryw yn "shinach" (h.y. dim yn tyfu neu i'w gael ynddo), a dyna'r enw hyd heddiw yn yr Aberffraw.

Yr oedd offerynnau hwsmonaeth yn brin, anghelfydd a diaddurn. Byddai'r gwĭdd (aradr) o bren derw neu onnen, o waith y tyddynnwr ei hun, wedi ei wneud mewn ychydig oriau gyda'r llif, y cĭn a'r ebill. Cynhwysai ddau gorn, arnodd, cebystr, gwadn, ac ystyllen, ac o dan y wadn fe hoelid darn o haearn, swch am ei flaen, cwlltwr i dorri y gĕys a darn i fachu'r fondid. (Yn ddiweddarach daeth y "gwĭdd main" ac ar ôl hynny yr aradr haearn.)

O'i flaen y byddai dan bâr o ychen, yr iau ar eu gwarrau, a'r did ychen yn cyrraedd o flaen yr aradr iddi. Cerddai'r ychen yn hamddenol a phwylllog, bydded y tir yn ysgafn neu drwm, a symudent dan yr iau yn wastad a hylaw dan gnoi eu cil. Byddai'r gyrrwr ychen a'i irai yn ei law, a'i wialen-bren cyfuwch a'i goryn. Yn y naill ben iddi yr oedd rhaw fechan at lanhau ystyllen yr aradr, a'r pen arall yn flaenfain, ac â hwnnw y byddai yn pegio y ddau eidion rych er mwyn cyflymu tro yn y pennau. Weithiau byddai'r iau yn torri'r cnawd yn friw, ac os byddai i ddaliwr yr aradr neu yrrwr yr ychen ganfod y pryf garw hwnnw a geir ar adegau mewn tir da ac a enwir yn "fraster y ddaear," fe fyddent yn stopio'r wedd, ac â'r pryf yn rhwbio'r briw ar war yr ychen. Dyna'r rheswm i'r pryf hwnnw gael ei alw yn "bryf y war." Hefyd, y canwr rhadlon o yrrwr a gydweddaï orau â thymer yr ychen; aent o dalar i dalar gan gnoi eu cil, a'r eidion mwyaf gweithgar a fendiaï gyntaf ar y borfa haf.

Gan nad oedd odid un drol yn y plwyf 250 mlynedd yn ôl, gwneid y diffyg i fyny i raddau trwy gario tywod at wrtaith yn bynnau mewn cydau ar gefnau y meirch. Byddai un dyn o ffarm gyda nifer o geffylau yn myned am y tywyn, ac yn gyffelyb o ffermydd eraill, gan gynorthwyo ei gilydd i gyd-bynio. Tennyn neu benffyst a fyddai ym mhennau yr anifeiliaid.

At deilo, byddent â'u sled lusg yn ei symud ar ôl y ceffyl i'r cae. Hefyd, yr oedd ganddynt eu cewyll teilo. Ar gefn y ceffyl gosodid y strodyr bwn, gyda tholyn pren ar y top, a'r arwest o'r cawell am y tolyn. Yn y gawell deilo yr oedd gwaelod i ymollwng; ond tynnu y clip pren, fe agorai y gwaelod a disgyrnai y cynnwys yn y fan.

/53/Pladurient eu gweiriau, gan finio y pladuriau â'r stricbren. Carient eu gweiriau yn bynnau gan ddefnyddio tresi, sef dau dennyn yn ogyhyd, ac arwest yn y canol i'w cysylltu. Byddai gan bawb ei waith; bachgen yn taenu y dres wrth y cocyn (neu fwdwl) gwair, dau yn cyfleu y gwair arni a'i rwymo yn sypiau; eraill yn pynio yr anifeiliaid gan roddi swp o bobtu i'r anifail. Rhoddid yr arwest wrth gorn y strodur bwn, ac un swp ar hynny, a dyna wreiddyn yr arferiad o bynnu, sef tri swp. Yr oedd eraill yn arwain y ceffylau ac eraill drachefn yn dad-bynio a'i gymhwyso yn deisi. Dywedir y gellid cario swm mawr o wair mewn ychydig amser yn y dull yma.

Gyda'r yd llyfnent eu meysydd ag ôg o un darn tair ongllog. Yna daeth ogau pren deuddarn i arferiad, tair carfan yn y darn a phum dant yn y garfan. Ymhen blynnydoedd ar ôl yr erydr haearn, daeth yr ogau haearn. Gwneid eu gĕr aredig o stida (ystlys-didau) cyrt a chwllwm rhedeg i afael yn y clip ar ben y tinbren. Nid oedd perygl felly iddynt ddatod na bachu mewn ddim.

Cludent eu hydau o'r meysydd, a'u heithin a'u tanwydd â'r ceir llusg. Byddai'r anifail yn y siafft, a'r pen eithaf yn llusgo, yn cyfateb i hen sarnau a welir yn ein broydd. Ai y march hyd y sarn a'r bodiau llusg un o bobtu, y tu ôl yn hir osgo a rhwylllog, a'r tu blaen yn syth. Cyfleai tua phedwar neu bum stwc o yd.

Torrent eu hydau â chrymanau, gan ddyrneidid yr haidd a'r gwenith, a slasio y ceirch â'r crymanau. Nithio yr yd y byddent; ar ddiwrnod sych awellog dyludent eu hydau o'r ysgubor drwy ei us i ben ponc sech, ac ar y nithlan, â'r gogr hidill, rhidyllent yn y gwynt, ac felly dro ar ôl tro. O dipyn i beth, byddai y pentwr yn ymlanhau, ac felly y ceid ef yn weddol lân. Os haidd a fyddai, colient ef gyda'r "coliar," ac yna parent a thynnent y topyn ar gyfrdro i ganol y gogr.

Trafferth mawr iddynt oedd cadw y *crop* rhag i'r anifeiliaid ei bori. Tuag at hyn byddai gan bob ffarm le cauedig, ac yno y buarthent eu hanifeiliaid dros y nos, ond yn y dydd y byddai yr "hogyn cadw" gyda'i bastwn ar ffill gwastadol ar hyd y dydd yn eu gwyllo. Gwasanaethai y bachgen hefyd yn y gaeaf i "alw," sef i dywys y ceffylau i aredig a llyfnu, gan mai tua'r flwyddyn 1828 y dechreuodd yr arferiad o ddefnyddio *reins* at aredig. Oherwydd fod yr anifeiliaid hysbion yn cael eu porthi allan, ac ambell swp o wellt yma ac acw iddynt ar hyd a lled y meysydd, byddai gwaith mawr ar gyfer y bachgen i chwalu biswail a phriddwal (ond yn fwy priodol "priddwadd"). Heblaw hyn rhaid oedd iddo chwalu a gwastatau y pridd a weithid i fyny gan y miloedd tyrchod yn y fro.

Dechreuwyd ar yr arferiad o wrteithio y tir yn y plwyf rhyw chwe ugain mlynedd yn ôl. Gwneid hynny trwy gario chwe throliad o bridd, tair troliad o dywod, a dwy droliad o dail y buarth, yn domenydd hyd y meysydd, o fewn rhyw ugain llath i'w gilydd. Disgwylid i ddyn droi neu gymysgu chwech o'r cyfryw domenydd mewn diwrnod. Yn niwedd y flwyddyn gosodid hwy yn dasgau i'w chwalu â berfa olwyn, o fesur tair yn y dydd, a hawdd deall /54/ei fod yn waith caled a llafurus. Yna braenarent y croen glas yn denau, ac ail droent efyn y gwanwyn, a chaent gnwd o haidd toreithiog. Ni ddaeth treinio a sychu y tir yn arferiad am flynyddoedd.

Parhâi eu horiau llafur ar hyd yr "hirddydd haf." Yr oedd gofal codi ar y penteulu, yr hwsmon, neu y pen-gwas. Byddent hwy yn bur gyfarwydd â'r amser, er

prinned clociau ac oriaduron. Byddai clwyd y ceiliog ac ystafell y gofalwr bob amser yn agos i'w gilydd, ac fe adwaenai wahanol ganiadau y copog. Trwy ei ffenestr gwyliai y "wawr", "toriad y dydd," a'r "seren ddydd." Yn ei adeg clywid y gofalwr yn gweiddi "Holo lads, codwch," a chyda hynny byddai'r holl weision ar eu gwadnau, a hynny tua phedwar yn yr haf. Yna pawb i'w wasanaeth, rhai am y rhawiau, eraill am y ceffylau, a'r "hogyn cadw" am ei bastwn, a gweithient ar eu cythlwngh hyd tua saith. Tua'r adeg honno gwelid "morwyn y llanciau" yn taro y grogen ganu yn y dwfr ac yna yn ei llaw, gyda thri neu bedwar o gën yn ei dilyn i'r fan arferol. Yna canai ei bë, bë, bë, a dwbrantiai ei chanu a'r cën yn udo. Mor gyflym y clywai pob gwas ac mor fuan y prysurent i'r tí ! Wedi brecwesta am saith, â'i pob un at ei orchwyl fel cynt; am unarddeg âi pawb i orffwys am ddwy awr; (byddai hyn yn dechrau ar yr hen Galanmai, a diweddaid gyda'r cynhaeaf gwair). Canai y corn drachefn am un o'r gloch i bawb i ddyfod i ginio; ar ôl hynny â'i pob un at ei wasanaeth hyd o fewn ychydig i "haul y gaera," h.y. ei fachludiad. A hynod mor amcanus oeddynt i ddeall yr amser noswylio! I wneud hyn, safai un â'i wyneb i'r gorllewin i gyfeiriad yr haul, estynai ei fraich yn wastad ogyhyd, ysgwariai ei law yn yr arddwrn, a chyfleai ei bedwar bys yn gyfochrog at guddio y cyfwng rhwng godre yr haul a'r gorwel. Os cyfatebai'r llaw i'r cyfwng, awr fyddai; ond os y byddai'r llaw yn rhy fechan rhoddent y llaw arall ati, neu fys dau neu dri a thrwy ryw ymarferiad, byddai eu dyfaliad yn bur agos i'w le. Yr oedd ganddynt hefyd eu deialau i ddangos yr amser yn fanwl, (os byddent wedi eu gwneud a'u gosod yn iawn), dan dywyniad yr haul.

Rhaid oedd byw ar dri phryd o fwyd ar ddiwrnod gwaith; ond ar y Sul ceid pedwar pryd gan rai, a thri gan eraill. Hwyrnos gaeaf gellid gweled y merched yn y gegin gyda'u troellau bach yn tralian nyddu. Cadwai pawb ei amser noswyl yn rheolaidd, sef saith i'r ystabl, wyth i'r uwdd, a naw i'r troellau.

Mae llawer o draddodiadau yn yr ardal yn profi bod yr hen amaethwyr gynt wedi digalonni oherwydd i'w tiroedd gael eu gorchuddio gan drwch mawr - deuddeg troedfedd mewn ambell le hyd yn oed yn y pentref - o dywod gwyn gwyllt ac aflonydd, a drodd gannoedd o aceri o dir bras yn "anialwch."

Dywedir am diroedd yno a wrthodwyd gan hen frodorion ar brydles hir ac ardrethoedd isel, oherwydd eu bod fel tywyn, ac yn hollol ddiwerth fel tir amaethyddol. Ond yn araf iawn, dechreuodd rhai mannau gwlypach ac oerach na pharthau eraill, fagu croen, lle y cai ychydig ddefaid bychain borfa brin, rhyw damaid rhag llwgu. /55/Yna dechreuwyd cau, a cheisiwyd amaethu clytiau neu leiniau bychain i godi ychydig yd a chloron.

Ar ochr Llanddwyn i Niwbwrch, lle y ceid y trwch mwyaf o dywod, yr oedd y tyddynwyr yn gwningwyr ac yn gweithio a masnachu mewn nwyddau a wneid â morhesg, ac weithiau - yn ôl tystiolaeth Cofrestrau'r Plwyf - ceid yn eu mysg grefftwyr gegis cryddion a seiri.

Crybwyllir¹ bod adfywiad amaethyddol wedi dod i Niwbwrch gyda dyfodiad gwr dieithr o'r enw Abram o sir Ddinbych;² a chan fod ganddo ychydig arian, pur hawdd oedd iddo gael fferm yr adeg honno. Ychwanega yr un awdur fod i'r Abram hwn ddau fab, sef Risiart yn byw yng Nghefn-mawr-uchaf a Shon yng Nghefnbychan. Dengys Cofrestrau'r Plwyf fod Richard yng Nghefn-mawr-uchaf yn 1803 a John yng Nghefn-bychan o 1777 hyd 1823. Dyma fanylion cynharach am y teulu ac o'r un ffynhonnell:

Abram, mab Richard Abram, wedi ei gladdu 31 Ionawr, 1723;
Abraham Peters, wedi ymbriodi â Jane Jones 31 Ionawr, 1724;
Elizabeth, merch Rowland Abram, wedi ei chladdu 20 Chwefror, 1726;
Rowland Abram; wedi ei gladdu 23 Medi, 1731;
Richard Abram, wedi ei gladdu 24 Mawrth, 1736;
Richard, mab Abram Peters o Gefn-bychan, wedi ei fedyddio 15 Gorffennaf, 1744.

Ymddengys felly fod yr Abram cyntaf uchod, y mae sicrwydd amdano, wedi dyfod i fyw i Niwbwrch oddeutu'r flwyddyn 1700, neu gynt. Awgrymir bod y teulu wedi rhoddi peth adfywiad yn amaethyddiaeth yr ardal, ond nid llawer o welliant yn y drefn o amaethu.

Rhyw gan mlynedd yn ôl, daeth un Morris Jones o Landwrog i fyw i Gaeau-brychion, ef yn amaethwr deallus a phrofiadol. Cyn ei ddyfod yr oedd yr hen erydr gweiniaid a ddefnyddid gan yr amaethwyr a'r ceffylau bychain teneuon a gedwid, yn hollol anaddas i'r drefn newydd o amaethu, ond fe'u perswadiant eu hunain fod aredig ysgafn a bâs yn fwy addas i dir y rhan yma o'r wlad nac aredig trwm. Hefyd, gan y byddai aredig ysgafn yn cynrchu cynydau ysgafn, yr oedd hynny drachefn yn peri i'r gwrtaith a arferid fod yn wael a phrin.

Dechreuodd Morris Jones gan borthi meirch ieuainc, nes gwneud dau neu dri ohonynt yn gryfach na llawer o rai bychain hen a thenau. Yna arddodd ei dir yn ddwfn a gwariodd ugeiniau o bunnau mewn gwrtaith a hadyd da. Dilynwyd ei esiampl gan amaethwyr eraill er mawr les i amaethyddiaeth yn y plwyf./56/

CYFLWR AMAETHYDDIAETH YN 1914.

Y prif gnydau a gynhyrchwyd oedd ceirch, ym Mhentre' Isaf yn fwyaf arbennig (15/- i 16/- y pêg), ynghydag ychydig o haidd a llai o wenith, canys nid yw'r tir yn ddigon cleiog a chryf i dyfu gwenith. Tyfid mwy o geirch nac o haidd am fod gwellt y blaenaf, wedi ei falu, yn well bwyd i'r anifeiliaid. Yr oedd adar y t^h yn difetha haidd newydd ei hau, ac y mae haidd yn gofyn pridd trymach na cheirch, rhag iddo "orwedd i lawr". Hefyd, cynhyrchid cloron (6/- am ddau gant), moron (2/6 i 3/- y

1 *Hanes Niwbwrch*, gan O.W., tud. 55.

2 Gelwir ei ddisgynyddion (tybiedig) hyd heddiw yn y plwyf wrth yr enw "teulu'r Abrams."

cant), maip (10/- y llwyth), mangols h.y. *mangold-wurzels* (12/- i 15/- y llwyth), “Swedes” neu rwdins (1/- y cant), a gwair.

O’r cnydau hyn, ystyrid cloron, moron a cheirch y rhai mwyaf pwysig, oherwydd ysgafn yw natur y pridd yn y plwyf mewn canlyniad i oresgyniad y tywod. Buasai ardal Pen-lôn yn gwneud “allotments” rhagorol, ac oddi yma am flynyddoedd lawer byddai bron pob dyn, a oedd ganddo gar a cheffyl neu farlen, yn myned i sir Gaernarfon a sir Ddinbych i werthu cloron a moron.

Nid yw’r plwyf yn nodedig am unrhyw dda corniog arbennig. Gwartheg duon (“Welsh Black”) a geir yma yn gyffredin. Cynhyrchent fwy o gig côch ac maent yn haws eu pesgi na’r “Shorthorns” a’r “Herefords,” am eu bod yn fwy corffol; rhoddent lai o laeth na’r “Shorthorns” ond maent yn well am odro na’r “Herefords,” er fed y rhain yn dewach.³

Ceir rhai amaethwyr yn y plwyf yn tyfu ceirch yn yr un cae am ddwy flynedd yn olynol, ond yn gyffredin mabwysiedir y drefn a ganlyn:- cnydau gwraidd (cloron, “mangols,” moron), ceirch, gwair, porfa.

Fel y dywedwyd eisoes, gwerthid llawer o’r cloron a’r moron. Fe â rhan o’r ceirch i’r farchnad, a’r gweddill i fwydo’r anifeiliaid a’r da pluog. Defnyddid y maip a’r rwdins, a hefyd y gwair, fel porthiant gaeaf i’r anifeiliaid. Gwerthid y ceirch “as per sample” yn Llangefni a Chaernarfon, ac anfonid ef i Loegr gyda’r trên o Fodorgan neu’r Gaerwen. Cludid y cloron a’r moron i’r farchnad yng Nghaernarfon ar Sadyrnau a hefyd gyda char i Fethesda a Llanberis, sef ardaloedd y chwareli, i farchnad Bangor bob dydd Gwener ac, yn yr hâf, i drefydd glannau’r môr, megis Penmaenmawr, Llandudno, a Bae Colwyn.

Yr anifeiliaid a gedwir ar y fferm yw ceffylau, i drin y tir, a gwartheg, i gael ymenyn i’w werthu ym marchnad Caernarfon ar y Sadwrn, ynghyda defaid a moch. Gwerthir y da corniog rhwng blwydd a hanner a dwyflwydd oed ym mis Ebrill, iddynt gael eu hanfon i besgi ar dir mwy ffrwythlawn fel glan afon Menai.

Yn y plwyf ceir dan fath o ddefaid: (1) rhai mawr - “cross Leicester breed” - a gedwir er mwyn cael ÷yn; ym mis Ebrill gwerthir yr ÷yn dros eu pennau, o dri i bedwar mis oed, i borthmyn i’w hanfon gyda’r trên i Fanceinion, fel erbyn diwedd Ebrill bydd y /57/rhan fwyaf o’r caeau yn rhydd i wair dyfu. Mae hyn yn wir am y rhan fwyaf o’r sir.

(2) rhai llai - defaid mynydd wedi eu prynu at ddiwedd y flwyddyn yn ffeiriau defaid Sir Gaernarfon (Aber yn bennaf). Gan eu bod o rywogaeth galetach rhoddir hwy i bori yn ardal y tywyn yn rhan ddeheuol y plwyf yn ystod yr hâf (Ebrill i Orffennaf), pan werthir hwy (Gorffennaf i Awst) fel “stores da,” i’w pesgi yn adloddau rhannau eraill o’r sir.

Pori allan drwy’r hâf mae’r holl anifeiliaid. Cedwir y ceffylau a’r gwartheg dan dô yn y gaeaf, oddieithr pan na fydd y ceffylau yn gweithio, a phan ollyngir y gwartheg allan i bori am ran o’r dydd. Ar wair a cheirch a bran y bwydir y ceffylau.

3 Pe croesid “Herefords” gyda “Welsh Blacks,” fe geid llawndyfiad cynt a gwell gradd o biff.

Am y da corniog ieuainc (18 i 22 mis oed) cedwir hwy, drwy’r gaeaf, dan dô *agored* a’u bwyd yw gwair, gwellt a maip. Allan bydd y defaid, ac i’r defaid “mawr” rhoddir ychydig geirch, bran a maip, yn gyfan, wedi eu gwasgaru dros y caeau.

Mae’r gwartheg bob amser yn aros ar yr un tir - hwnnw yn gyffredin y mwyaf ffrwythlon. Fel arfer, defnyddir y tir i bori bob yn ail â chynhyrchu cloron, moron neu geirch. Oddi wrth y gwartheg ceir biff, llaeth ac ymenyn, a rhydd defaid gig a gwlân. Gwerthir y cynhyrchion hyn ym marchnadoedd Caernarfon, Bangor a Llangefni.

Mae dwy ran o dair o boblogaeth y plwyf yn cael eu bywoliaeth oddi wrth amaethyddiaeth.

I’r tyddynwyr ar gwr y tywyn, adeg brysur yw tymor dal cwingod, sef o Fedi i ddechrau Ionawr. Mewn tir sych bob amser y cloddia cwingod eu tyllau. Mewn ardaloedd tywodlyd mae eu cig yn fwy tyner nag eiddo rhai a geir mewn tir trwm. Delir hwy â thrapiau a maglau - gwifr a chwlmw rhedeg iddi yn rhwym wrth beg yn y ddaear, ac wedi ei gosod yn y fath fodd ar lwybr y gwningen fel y rhed y gwningen a’i phen i’r wifr ac felly ei thagu ei hun. Yn Niwbwrch delir o wyth i ddeng mil o gyplau mewn un tymor, ac fe’u gwerthir am 1/2 i 1/6 y cwpl⁴ a’u danfon i Fodorgan i fynd ymlaen gyda’r trên i Fanceinion, Lerpwl, Leeds a Bradford.

4 Eleni (1949) maent yn 6/6 y cwpl !